Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 297 (Cy. 55)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2018

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/491 (Cy. 60)) ("Rheoliadau 2006").

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 4 o Reoliadau 2006 (cyfrifo ffioedd) drwy gynyddu'r ffi gymwysadwy sydd i'w thalu am gwrs o driniaeth Band 2 a Band 3.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Gofal Sylfaenol yn y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol ac Arloesi, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 297 (Cy. 55)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Mawrth 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *7 Mawrth 2018* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 125 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2018 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2018.

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006**

**2.** Yn rheoliad 4 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006(**2**) (cyfrifo ffioedd)—

(a) ym mharagraff (2), yn lle "£44.00" rhodder "£45.00";

(b) ym mharagraff (3), yn lle "£190.00" rhodder "£195.00"; ac

(c) ym mharagraff (4), yn lle "£190.00" rhodder "£195.00".

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2006/491 (Cy. 60), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/339 (Cy. 83).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Vaughan Gething*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
1 Mawrth 2018